- Ffermio Llaeth Organig - Atebion ymarferol i ffermwyr yn 2005

Bydd 2005 yn golygu her i ffermwyr organig, gan y bydd rhaid iddyn nhw addasu i SFP, yn ogystal â'r rheol 100% porthiant organig. Mae llawer wedi ymbaratoi at hyn drwy newidiadau yn ei sustemau; gan gynnwys patrwm lloia, tyfu ydau neu 'arbenigo' mewn glaswellt pori.
Mae ymchwil IGER yn cymharu dwy fenter laeth organig yn ogystal â datblygiadau technegol mewn bridio glaswellt a meillion, gwneud silwair, a defnyddio tom a biswail.
Mae ffactorau economaidd yn dal i fod yn hollbwysig i gynaliadwyedd, ac mae'r sioe ar daith yn ceisio rhoi enghreifftiau o fentrau a fydd yn golygu mwy o elw.
John Cook o ADAS fydd yn cadeirio ac fe geir cyfraniadau oddi wrth ffermwyr organig llwyddiannus gan gynnwys Tom Morris, sef enillydd cystadleuaeth Rheolwr Tir Glas BGS eleni, Tim Downes, Alex Holland a Richard Weller o brosiect llaethdy organig IGER.

Trefnwyd gan y Ganolfan Datblygu Tir Glas a'r Ganolfan Datblygu Organig, ar gyfer Cyswllt Ffermio. Cynhelir y cyfarfodydd yn:

Gwesty'r White House, Llanelwy
Dydd Mawrth 26 Ebrill am 7.30pm

Nant-y-ffin, Llandysilio
Dydd Mercher 27 Ebrill am 11.45 am

Am ragor o wybodaeth ac i archebu lle, cysylltwch â :
Heather McCalman ar 01970 823026/024 neu eich 'Hwylusydd' Cyswllt Ffermio lleol.